

UNITED UTILITIES WATER PLC

**Cynllun Sychder Terfynol
2014**

CRYNODEB GWEITHREDOL

Lluniwyd y cynllun sychder hwn gan United Utilities Water PLC (UU). Mae'n diweddarau Cynllun Sychder Terfynol 2013 er mwyn cynnwys sbardunau sychder ac opsiynau sychder diwygiedig ar gyfer Llyn Ennerdale yng Ngorllewin Cumbria. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol eraill i'r cynllun blaenorol, Cynllun Sychder Terfynol 2013.

Mae'r cynllun yn rhoi datganiad cynhwysfawr o'r camau gweithredu y byddwn yn ystyried eu rhoi ar waith yn ystod amodau sychder i ddiogelu cyflenwadau dŵr hanfodol i'n cwsmeriaid a lleihau'r effaith amgylcheddol i'r eithaf. Mae diogelwch a chyfanrwydd cyflenwadau dŵr o'r pwys mwyaf i'n cwsmeriaid.

Nid yw sychderau yn dilyn unrhyw batrwm penodol a gallant ddigwydd unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn, gan ddangos nodweddion amrywiol. O ganlyniad, mae ein cynllun yn cyflwyno ystod o opsiynau sydd ar gael yn achos sychder, a'r prosesau a'r cyfnodau amser gofynnol ar gyfer rhoi'r opsiynau hyn ar waith. Mae'r cynllun yn berthnasol i unrhyw amodau sychder, gan gynnwys sychderau sy'n fwy difrifol nag a gofnodwyd erioed o'r blaen.

Mae ein cynllun drafft yn cynnwys gwersi a gafwyd yn ystod sychder 1995/96 yn ogystal â sychderau mwy diweddar 2003 a 2010, ac mae'n cymryd i ystyriaeth Ganllaw i Gynlluniau Sychder Cwmnïau Dŵr 2011 Asiantaeth yr Amgylchedd (EA, 2011). O dan Adran 39(B)7 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, mae dyletswydd statudol ar gwmnïau dŵr i gytuno ar gynlluniau sychder sydd ar gael i'r cyhoedd, yn dilyn ymgynghoriad. Caiff cynlluniau sychder eu diweddarau bob 3½ blynedd (neu'n gynt yn achos newid perthnasol) ac mae'r cynllun hwn yn diweddarau ein cynllun sychder terfynol blaenorol, Cynllun Sychder Terfynol 2013. Mae'r cynllun hwn yn ymgorffori safbwyntiau a godwyd yn ystod cyfnod ymgynghori â'r cyhoedd rhwng 13 Ionawr 2014 ac 17 Chwefror 2014; cafwyd 22 ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae UU yn cyflenwi dŵr i ryw 6.9 miliwn o bobl a 0.2 miliwn o gwsmeriaid busnes yn Cumbria, Swydd Gaerhirfryn, Manceinion Fwyaf, Glannau Mersi, y rhan fwyaf o Swydd Caer a rhan fechan o Swydd Derby. Daw dros 90% o'r dŵr a gyflenwir gan UU o afonydd a chronfeydd dŵr, a daw'r gweddill o ddŵr daear. Mae hyn yn wahanol i weddill Lloegr, lle mae cyfartaledd o 60% yn unig yn cael ei gyflenwi o afonydd a chronfeydd dŵr. Mae rhanbarth UU wedi'i rannu'n bedwar parth adnoddau dŵr:

- Parth Adnoddau Integredig – rhwydwaith integredig sy'n gwasanaethu de Cumbria, Swydd Gaerhirfryn, Manceinion Fwyaf, Glannau Mersi a'r rhan fwyaf o Swydd Caer, gan gynrychioli dros 90% o'r holl ddŵr a gyflenwir gan UU
- Parth Adnoddau Gorllewin Cumbria – yn gwasanaethu ardaloedd Workington, Whitehaven, Wigton a Solway
- Parth Adnoddau Caerliwelydd – yn gwasanaethu ardal Caerliwelydd
- Parth Adnoddau Gogledd Eden – yn gwasanaethu rhan ogleddol, wledig rhanbarth Eden yn Cumbria

Parth Adnoddau Gorllewin Cumbria sy'n fwyaf sensitif i sychder oherwydd bod ei gyfnod tyngedfennol (sef yr amser y mae'n ei gymryd i ffynonellau dŵr fynd o fod yn llawn i wag yn ystod y sychder gwaethaf) yn fyr (2-3 mis). Felly, mae'n rhaid gwneud penderfyniadau'n gyflym yn y parth hwn yn ystod sychder ond, yn yr un modd, yn dilyn glaw, gall y ffynonellau ail-lenwi ymhen ychydig ddyddiau. Mae Gorllewin Cumbria hefyd yn cynnwys nifer o safleoedd amgylcheddol sensitif sydd wedi'u dynodi o dan ddeddfwriaeth genedlaethol a'r Undeb Ewropeaidd ac mae'n ofynnol yn gyfreithiol i UU ddiogelu safleoedd o'r fath. Mewn sychder, mae cydbwysedd gofalus rhwng cyflenwad dŵr i'r cyhoedd a diogelu'r amgylchedd.

Caiff ein ffynonellau dŵr eu rheoli yn unol â pholisïau gweithredu a rheolau rheoli i ddarparu cyflenwad dŵr diogel i'n cwsmeriaid. Mae UU yn cyflawni monitro hydrolegol a hydroddaearegol mynych ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae asesiadau o'r data hwn yn rhoi'r sylfaen ar

gyfer adnabod amodau sychder yn gynnar a nodi'r angen am unrhyw fesurau rheoli sychder, a'u hamseriad. Mae llawer o'n camau gweithredu i reoli sychder yn rhan annatod o'n gweithgareddau gweithredol arferol yn gysylltiedig â ffynonellau dŵr. Dim ond o dan amodau sychder difrifol y bydd hi'n ofynnol defnyddio pwerau cyfreithiol penodol a/neu fesurau eithriadol eraill. Mae'r rheolaeth ar gyflenwadau dŵr yn ystod amodau sychder yn gyfres o gamau gweithredu sy'n adlewyrchu difrifoldeb, graddfa ddaearyddol a chyflymder datblygiad y sychder. Yn gyntaf, byddwn yn cymryd camau gweithredu sydd o dan ein rheolaeth ein hunain cyn rhoi camau ar waith sy'n gofyn am bwerau cyfreithiol arbennig.

Mae'r cynllun hwn yn cyflwyno pedwar sbardun sychder ar gyfer pob parth adnoddau, ar sail lefelau cronfeydd dŵr neu gyfran y drwydded echdynnu dŵr flynyddol a ddefnyddiwyd. Mae'r sbardunau yn bwyntiau penderfynu, er mwyn ystyried pa fesurau'n sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r sefyllfa sydd ohoni. Mae'r cynllun yn cynnwys ystod o gamau gweithredu i reoli sychder (gweler Ffigur 1), sy'n gysylltiedig â'r sbardunau sychder, gan gynnwys:

- Camau gweithredol
- Camau cyfathrebu
- Camau ar ochr y galw (ymgyrchoedd effeithlonrwydd dŵr, cyfyngiadau gwirfoddol ar ddefnyddio dŵr, cyfyngiadau statudol ar ddefnyddio dŵr, gwaharddiad ar ddefnydd nad yw'n hanfodol)
- Camau rheoli gollyngiadau
- Camau ar yr ochr gyflenwi (ffynonellau wrth gefn a ffynonellau nas comisiynwyd; cludo dŵr mewn tanceri)
- Camau trwyddedau/gorchmynion sychder

Eir ar drywydd camau gweithredu penodol dim ond os ydynt yn berthnasol i'r sefyllfa o sychder sydd ohoni. Gall camau gweithredu ynghylch sychder gael eu cymhwysu naill ai ar draws y cwmni cyfan, fesul parth adnoddau neu i dargedu ardal ddaearyddol benodol yn dibynnu ar natur y sychder sydd ohoni ar y pryd.

Cynhaliwyd Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ar wahân o'r opsiynau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn. Mae unrhyw opsiynau y nodwyd bod ganddynt y potensial i effeithio'n sylweddol ar safleoedd a ddynodwyd yn Ewropeaidd (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA) a safleoedd a ddynodwyd yn ôl Confensiwn Ramsar), wedi bod yn destun Asesiad Priodol manwl. Gall opsiwn sychder sy'n cael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd gael ei gynnwys yn y cynllun ar yr amod nad oes unrhyw atebion eraill, a phan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod rhesymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig dros gynnwys yr opsiwn a bod mesurau cydbwysu addas yn cael eu mabwysiadu. Dyma'r sefyllfa yn achos opsiwn y gorchymyn sychder ar gyfer Ennerdale sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun hwn.

Mae deddfwriaeth newydd (Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, sy'n diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, a Chyfarwyddyd Sychder 2011) wedi diwygio gallu cwmnïau dŵr i orfodi cyfyngiadau defnyddio dŵr ar gwsmeriaid. Mae'r cynllun sychder hwn yn cymryd y ddeddfwriaeth newydd hon i ystyriaeth. Mae'n cynnwys darpariaeth ar gyfer gosod cyfyngiadau gwirfoddol ar gwsmeriaid ar ddefnyddio dŵr, yna cyfnod ymgynghori i ddilyn, cyn gweithredu cyfyngiadau statudol ar ddefnyddio dŵr, fel y mae diwygiadau i Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn darparu ar eu cyfer.

Yn achos pob parth adnoddau (heblaw Caerliwelydd, lle y mae'n annhebygol y bydd galw am drwyddedau/gorchmynion sychder yn dilyn gwelliannau i seilwaith a newidiadau i'r drwydded yn 2003), byddai ceisiadau am drwyddedau/gorchmynion sychder yn cael eu gwneud ar ôl i gyfyngiadau gwirfoddol ar ddefnyddio dŵr ddechrau.

Isafbwynt ein lefel gwasanaeth ar gyfer cyflenwi dŵr yw peidio â gweithredu cyfyngiadau statudol ar ddefnyddio dŵr a thrwyddedau/gorchmynion sychder fwy nag unwaith ym mhob 20 mlynedd ar gyfartaledd, a pheidio â defnyddio gorchmynion sychder i gyfyngu ar ddefnydd nad yw'n hanfodol

o ddŵr fwy nag unwaith ym mhob 35 mlynedd ar gyfartaledd. Nid oes unrhyw doriadau ar rota na safbibellau i ddogni cyflenwadau hanfodol yn yr arfaeth (wedi'u gweithredu drwy Orchmynion Sychder Brys). Mae hyn yn gyson â'r lefel gwasanaeth yn ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (UU, 2009) ac mae ganddo gydbwysedd rhwng y cwsmer a'r effeithiau amgylcheddol. Caiff y lefel gwasanaeth ei hadolygu fel rhan o broses y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn hytrach nag yn y cynllun sychder hwn.

Mae ein hasesiad o sicrwydd y cyflenwad dŵr yn awgrymu pe bai'r sychder gwaethaf erioed a gofnodwyd yn digwydd eto, hyd yn oed wrth gyfrif am effeithiau rhagweledig newid yn yr hinsawdd, na fydd ein cronfeydd yn gwacáu ond byddant yn cyrraedd lefelau isel iawn. Cyn cyrraedd y lefelau isel iawn hyn, bydd angen gweithredu i ddiogelu cyflenwadau dŵr rhag ofn y bydd y sychder yn fwy difrifol nag a gofnodwyd erioed o'r blaen. O ganlyniad, bydd angen gweithredu cyfyngiadau ar ddefnyddio dŵr a thrwyddedau/gorchmynion sychder cyn cyrraedd lefelau isaf oll y cronfeydd dŵr er mwyn diogelu cyflenwadau dŵr.

Ffigur 1: Crynodeb o sbardunau sychder a chamau gweithredu cysylltiedig

Statws	Crynodeb o Weithgarwch Arferol	
Gweithredu Arferol Uwchlaw pob sbardun sychder	Rhaglen barhaus ar effeithlonrwydd dŵr i arbed 3 MI/d bob blwyddyn	
	Rheoli gollyngiadau i gynnal gollyngiadau ar y lefel economaidd gynaliadwy	
	Gwneud y gorau o'r system gyflenwi i gydbwyso cost a risg sychder posibl	
	Cysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch materion adnoddau dŵr yn rheolaidd	
Statws	Crynodeb o Gamau Ychwanegol (os ydynt yn briodol mewn sychder penodol)	Amcangyfrif o'r amser i'w gweithredu
Mwy o Risg o Sychder Islaw Sbardun 1 ar gyfer o leiaf un ffynhonnell Amllder o ryw 1 mewn 3 blynedd Tua 14 diwrnod cyn y sbardun nesaf	Sefydlu strwythur rheoli sychder United Utilities	3 diwrnod
	Cytuno ar gynllun gweithredu sychder gydag Asiantaeth yr Amgylchedd	1 wythnos
	Mwy o gyfathrebu ynghylch defnyddio dŵr yn effeithlon	1 wythnos
	Gwneud y mwyaf o'r system gyflenwi i reoli'r risg o sychder posibl	Parhaus
Sychder Posibl Islaw Sbardun 2 ar gyfer o leiaf un ffynhonnell Amllder o ryw 1 mewn 5 mlynedd Tua 14 diwrnod cyn y sbardun nesaf	Gwelliannau pellach i gyfathrebu ynghylch defnyddio dŵr yn effeithlon – cysylltiad â thywydd sych. Hysbysebion yn y wasg a sioeau teithiol	1 wythnos
	Sefydlu diweddariadau rheolaidd i randdeiliaid	3 diwrnod
	Gwella gweithgareddau rheoli gollyngiadau	1 wythnos
	Dechrau'r broses o ddod â ffynonellau wrth gefn ar waith	1-3 mis
Rhybudd am Sychder Islaw Sbardun 3 ar gyfer o leiaf un ffynhonnell Amllder o ryw 1 mewn 12 mlynedd, neu lai Tua 21-35 diwrnod cyn y sbardun nesaf	Cyflwyno cyfyngiadau gwirfoddol ar ddefnyddio dŵr gydag ymgyrch gyfathrebu helaeth	3 diwrnod
	Dechrau ymgynghori ynghylch cyflwyno cyfyngiadau statudol ar ddefnyddio dŵr	3 diwrnod i'w ddechrau; 3-4 wythnos i'w gwblhau
	Dechrau'r broses o ddod â ffynonellau nas comisiynwyd ar waith	3-6 mis
	Gwneud ceisiadau am drwyddedau / gorchmynion sychder	1 wythnos
Sychder Islaw Sbardun 4 ar gyfer o leiaf un ffynhonnell Amllder o ryw 1 mewn 20 mlynedd, neu lai	Cyflwyno cyfyngiadau statudol ar ddefnyddio dŵr gydag ymgyrch gyfathrebu helaeth	Yn fuan ar ôl croesi'r sbardun
	Dechrau'r broses o ddod â ffynonellau pellach nas comisiynwyd ar waith	9-12 mis
	Gweithredu pwerau a roddwyd o dan drwyddedau / gorchmynion sychder	Adeg croesi'r sbardun neu'n fuan wedi hynny
	Gwneud cais am waharddiad ar ddefnydd nad yw'n hanfodol, a'i gyflwyno	Yn dibynnu ar lefel y galw

* Sylwer, mae'r sbardunau sychder a'r camau gweithredu yn Llyn Ennerdale ym Mharth Adnoddau Gorllewin Cumbria yn wahanol i'r rhai sydd wedi'u cyflwyno yn Ffigur 1 uchod. Bydd cyfyngiadau gwirfoddol ar ddefnyddio dŵr yn dechrau'n gynt yn ystod statws "Sychder Posibl" (Sbardun 2) i sicrhau bod cyfyngiadau ar y galw ar waith cyn gwneud cais am orchymyn sychder (Sbardun 3) yn y safle sensitif hwn, a bydd cyfnod 7 diwrnod yn bodoli rhwng Sbardunau 2 a 3 i ganiatáu am hyn. Rhoddir cyfyngiadau statudol ar ddefnyddio dŵr ar waith pan gyrhaeddir statws "Sychder" (Sbardun 4) cyn bod angen gweithredu gorchymyn sychder yn Ennerdale. Yn ogystal, bydd dŵr wedi'i drin o'r Parth Adnoddau Integredig yn dechrau cael ei gludo mewn tanceri ar adeg Sbardun 3.